**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau 14 Ebrill, 2016 am 10.00 am**

**MYNYCHWYR:** Y Cynghorydd Sir S. Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Sir S. White (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr Sir: D. Dovey, D. Evans, J. Prosser and A. Wintle

Hefyd yn bresennol Cynghorydd (wyr) y Sir: R. Chapman, R.J.W. Ynys Las, P.A.D. Hobson, P. Jordan, P. Murphy a V. Smith

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Hazel Ilett | Scrutiny Manager |
| Nicola Perry | Senior Democracy Officer |
| Roger Hoggins | Head of Operations |
| Peter Davies | Chief Officer, Resources |

**YMDDIHEURIADAU:**

Y Cynghorydd Sir D. Edwards

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Datganodd y Cynghorydd Sir S. Jones fuddiant personol nad yw'n rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau fel Cyfarwyddwr y Consortiwm Manwerthu Cymru.

Datganodd y Cynghorydd Sir S. White fuddiant personol nad yw'n rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau fel aelod o Gyngor Tref Trefynwy, a bod aelod o'r teulu'n dal bathodyn glas.

Datganodd y Cynghorydd Sir fuddiant personol nad yw'n rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau fel aelod o Gyngor Tref Y Fenni.

Datganodd y Cynghorydd Sir D. Dovey fuddiant personol nad yw'n rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau fel aelod o Gyngor Tref Cas-gwent, a'r Siambr Fasnach.

Datganodd y Cynghorydd Sir D. Evans fuddiant personol nad yw'n rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau fel aelod o Gyngor Tref Cil-y-coed.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

Nid oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

3. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cadarnhawyd cofnodion y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygiad a gynhaliwyd ar 3ydd Mawrth 2016 fel rhai cywir ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd, gyda'r newid canlynol:

*Cydnabuasom fod problemau'r Velothon 2015 wedi'u datrys ac edrychwn ymlaen at ddigwyddiad Velothon 2016.*

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau 14 Ebrill, 2016 am 10.00 am**

4. **Rhaglen Band Eang ac Ymelwa ar TGCh Busnes Cyflym Iawn - gwahoddwyd British Telecom i drafod cynnydd y rhaglen (atodir cyflwyniadau)**

**Diweddariad ar Gyflymu Cymru**

Croesawyd ymwelwyr o Gyflymu Cymru BT, a oedd yn bresennol yn y cyfarfod i drafod y cynnydd yn y rhaglen.

Pwysleisiodd Pennaeth Pobl a Datblygiad Masnachol ein bod ar gyfnod pwysig cyflwyno Cyflymu Cymru, gydag oddeutu 15 mis yn weddill o'r contract. Roedd isadeiledd sylweddol pellach i'w osod yn ei le, ac roedd swyddogion yn gweithio'n glos gyda Llywodraeth Cymru, BT a darparwyr eraill i sicrhau cysylltedd.

Yn dilyn cyflwyniad gan Reolwr Rhaglen Cyflymu Cymru gwahoddwyd yr Aelodau i wneud sylwadau a thrafod.

Nododd y Cadeirydd fod y cyflwyniad yn ddilyniant i'w groesawu o Eitem iSirol a drafodwyd mewn cyfarfod blaenorol, a chydnabu'r pwysigrwydd, er mwyn gwireddu'n dyheadau dan ein strategaeth ddigidol, fod angen i'r isadeiledd fod yn ei le. Gofynnodd y Cadeirydd wedyn, pwy oedd wedi penderfynu ar y meysydd ymyrraeth cyflwyno'r rhaglen, a mynegodd, fel porth i Gymru, y byddai Sir Fynwy wedi hoffi bod ymhellach i fyny yn y cynllun.

Mewn ymateb clywsom fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bob awdurdod lleol gyflwyno adborth ar flaenoriaethau, ac o ganlyniad i'r amser ymateb, roedd Sir Fynwy'n ardal lle bu'r gwaith yn hwyrach yn cychwyn. Roedd ystyriaeth hefyd i'r modd yr adeiladwyd yr isadeiledd.. Byddai Sir Fynwy'n ardal lle byddai gwaith yn cychwyn yn hwyrach. Byddai nifer y bobl yn elwa o Gysylltiad Ffeibr i'r Adeilad (FTTP) hefyd wedi golygu y byddai Sir Fynwy yn uwch i fyny'r rhaglen.

Cododd aelod gwestiwn ynghylch y diffyg mynediad i fand llydan. Eglurwyd na ddylai fod unrhyw reswm am ddiffyg mynediad, a byddai cynghorwyr BT yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau technegol. Roedd camdybiaeth y byddai pobl yn cael cynnydd awtomatig mewn cyflymder. Nid dyna oedd y sefyllfa, gan y byddai angen i archeb gael ei gosod gyda'r darparwr.

Mynegodd Aelod bod y cynnydd yn bodloni, ac ychwanegodd fel pwynt o ddiddordeb, fod Y Fenni yn cychwyn ar Brosiect Amaeth Trefol, prosiect Ewropeaidd gyda'r nod o gynhyrchu cynaliadwyedd a mentergarwch yn y diwydiant amaethyddol yn nhref Y Fenni. Pwysleisiwyd bod argaeledd band llydan yn elfen hanfodol o'r prosiect. Gofynnwyd am sicrwydd, parthed y palmentydd a ddiweddarwyd yn y canol tref, y byddai'r gwaith wedi'i gydgysylltu gydag adran Gweithgareddau CSF. Mewn ymateb, rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau y byddai BT yn cysylltu â'r awdurdod lleol cyn gwneud gwaith ar yr isadeiledd, gan arwain at gyfnodau cynllunio estynedig, a dyna paham y gallai prosiectau fod wedi'u hoedi.

Awgrymodd y Cadeirydd, er mwyn gwella cyfathrebu, byddai'n fuddiol i Gynghorwyr dderbyn gohebiaeth ynghylch diweddariadau yn eu wardiau. Cynghorodd y Pennaeth

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau 14 Ebrill, 2016 am 10.00 am**

Gweithgareddau ein bod, fel awdurdod priffyrdd, yn cyhoeddi rhestr wythnosol o waith o fewn priffyrdd, a byddai'n sicrhau y dosberthid y rhestr hon i'r Aelodau.

Mynegodd yr Aelod Cabinet dros Fenter siom parthed y sylw a wnaed yn awgrymu nad oedd CSF wedi ymddangos â diddordeb mewn manteisio ar y cyflwyno. Hysbyswyd ni bod CSF wedi bod ar flaen y gad o'r cychwyn i sicrhau bod Sir Fynwy ar flaen y rhaglen. Roedd yr Aelod Cabinet wedi cyfarfod â Chyfarwyddwr BT Cymru ar y pryd ar o leiaf ddau achlysur i drafod y safle ar y cyflwyniad. Byddai'r Aelod Cabinet yn edrych i mewn i'r camddealltwriaeth ynghylch y camwybodaeth bod diffyg brwdfrydedd gan Sir Fynwy. Eglurodd Mr Jones o BT y gallai fod wedi cam-eirio'i sylw ac eglurodd fod Sir Fynwy erioed wedi bod ar flaen y gad adeiladu ond pan ddeuai i adnabod meysydd blaenoriaethu o bersbectif Llywodraeth Cymru, roedd meysydd o gwmpas parth twf y dylid eu blaenoriaethu gyntaf.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cymunedol, dros y 5 mlynedd nesaf gyda chymryd EE drosodd, byddai darparwr Quadplay, sy'n golygu y bydd y rhyngrwyd, y ffôn band llydan a symudol yn dod at ei gilydd mewn un pecyn. Pan ddaw i frwdfrydedd dros Sir Fynwy, byddem eisiau Quadplay i bawb, a 5G, gan nad ydym yn fodlon â 4G. Gallai Sir Fynwy fod yn enghraifft wledig o'r modd y gall 5G drawsnewid, a byddai'n eiddgar i fod yn rhan o raglen beilot.

Cododd Aelod bryderon ynghylch hen geblau'n cyfyngu ar gysylltiadau. Mewn ymateb, clywsom fod BT yn adeiladu'r isadeiledd ond eu bod yn ymwybodol o broblemau ar gysylltiad copr, y tynnwyd sylw ato fel problem yn ymwneud â gwasanaeth.

Tynnodd Aelod sylw at Lanbadog fel ardal â derbyniad gwael iawn. Gofynnwyd i ni ddarparu manylion penodol y gellid mynd i'r afael â hwy.

Pwysleisiodd aelod, gyda thwf y diwydiant technoleg yng Nghas-gwent, roedd angen eiddgar am y gwasanaethau gorau posib er mwyn datblygu diwydiannau. Gofynnwyd i hyn gael ei gydnabod o'r pwys mwyaf.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y mast newydd yn Parkwall, clywsom fod hwn yn rhan o gynllun peilot Rhyngrwyd AB i ddarparu band llydan i'r ardaloedd mwyaf pellgyrhaeddol. Y nod oedd cyrraedd y rhan fwyaf o'r 1500 o aelwydydd a nodwyd.

Eglurodd Susan Ward y byddai unrhyw un a wnâi gais amdano yn derbyn cylch lythyr yn darparu gwybodaeth ar gynnydd. Hefyd gellid gwneud cais i dderbyn hysbysiad cyn gynted ag y byddai ffeibr ar gael. Awgrymodd y cadeirydd y dylid sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i wneud yn siŵr bod aelodau'r cyhoedd yn ymwybodol o'r broses gofrestru hon. Byddai cyllid o du Llywodraeth Cymru'n fuddiol.

Cynghorodd y Pennaeth Pobl a Datblygu Masnachol y byddai pob gwybodaeth yn cael ei gwthio drwy'r cyfryngau cymdeithasol, a byddai'n sicrhau y byddai unrhyw e-gipluniau'n cael eu cylchynu i bob Aelod.

Mewn ymateb i gais am eglurhad clywsom, gan fod yr adeiladu'n ddyledus i'w gwblhau erbyn Mehefin 2017, estyniad o 12 mis o ganlyniad i ychwanegu 50,000 o eiddo, gyda chwmpas o 95%. Disgwylid i Sir Fynwy fod dros 90%.

**Ymelwa ar Raglen Fusnes TGCh Cyflym Iawn**

Derbyniasom gyflwyniad gan Mr. L. Gripton, Rheolwr Partneriaeth Cyflymu Cymru i Fusnesau er mwyn darparu ar gyfer y Pwyllgor wybodaeth ar y rhaglen bum mlynedd a ariennir yn gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru a Chyflymu Cymru i Fusnesau gyda'r bwriad o weithio gyda Mentrau Bach i Ganolig er mwyn helpu i dyfu'u busnes.

Yn dilyn y cyflwyniad gwahoddwyd yr Aelodau i drafod a gwneud sylwadau, ac yn ystod yr amser hwnnw nodwyd y pwyntiau canlynol.
Mynegodd Aelod fel y byddai pobl mewn ardaloedd amaethyddol yn elwa'n fawr o'r cynllun hwn. Croesawyd Aelodau i gysylltu â Mr. Gripton â manylion pellach grwpiau a digwyddiadau yn ardal Sir Fynwy.

Cynghorwyd ni bod cyflwyniad amaeth0trefol i'w gynnal y prynhawn hwnnw a byddai'n fuddiol i Mr. Gripton ei fynychu. Byddai hyn yn mynd i'r afael â rhwydweithio gyda 10 tref ar draws Ewrop.

O gymharu ag awdurdodau eraill, hysbyswyd ni bod Sir Fynwy yn gyson â gweddill Cymru, ac roedd y brwdfrydedd a welwyd gan swyddogion yn galonogol iawn ac yn rhagori ar awdurdodau eraill. Parthed manteisio ar y cyflwyniad, roedd Sir Fynwy ar 25% o'r gwasanaethau a gynigiwyd.

Cododd Aelod bryder y gallai Cil-y-coed fod mewn perygl o golli cyfleoedd ac estynnodd wahoddiad i Bwyllgor Ardal nesaf Glannau Hafren, a byddai'n annog perchnogion busnes i fynychu hefyd.

Byddai'r Pennaeth Pobl a Datblygu Masnachol yn edrych i mewn i'r modd y gellid cryfhau'r ymwybyddiaeth ar draws Cynghorwyr.

Gwahoddodd Aelod Mr. Gripton i gyfarfod nesaf Pwyllgor
Ardal Sir Fynwy Ganolog.

Diolchodd y Cadeirydd gydweithwyr BT am eu presenoldeb a chroesawodd y cyfle i ymgysylltu, yr allwedd i gyfathrebu parhaus gyda phreswylwyr a busnesau. Byddai cyfathrebu'n parhau parthed ymholiadau preswylwyr a busnesau.

Casglodd y Cadeirydd y buasai'r drafodaeth gyda BT yn ddefnyddiol iawn yn egluro'r graddfeydd amser a'r broses ar gyfer y cyflwyno ar draws Sir Fynwy a fyddai'n cynorthwyo Aelodau i gynghori'u cymunedau ar gynnydd. Cynghorodd fod Aelodau'n derbyn nifer o geisiadau am wybodaeth ar gwblhau tebygol y cyflwyno a bod angen ymgysylltu cliriach gyda'r cyhoedd ar raddfeydd amser disgwyliedig. Pwysleisiodd y Cadeirydd yr angen i wella cyfathrebu ar gynnydd gwaith o fewn eu wardiau ac

atgoffodd Aelodau fod y Cyngor yn cyhoeddi rhestr wythnosol o waith o fewn priffyrdd. Gofynnodd bod y rhestr hon yn cael ei dosbarthu i Aelodau bob wythnos.

Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor, tra mae'r cyflwyno'n mynd rhagddo'n gadarn, deil cyfran sylweddol o'r isadeiledd i'w osod yn ei le a bod hwn yn anghenraid hanfodol i'r Cyngor os yw i wireddu'i ddyheadau yn nhermau ei strategaeth ddigidol. Pwysleisiodd fod band llydan yn ofyniad sylfaenol ar gyfer prosiectau allweddol megis Prosiect Amaeth -Trefol Y Fenni ac y bydd llwyddiant prosiectau o'r fath yn dibynnu ar argaeledd isadeiledd band llydan.

Cefnogodd aelodau'r Pwyllgor awgrym Aelod y Cabinet fod cyfle gwirioneddol i Sir Fynwy ddod yn enghraifft o'r modd y gall 5G drawsnewid ardal wledig gan gynnig eu cefnogaeth i'r Aelod Cabinet ddatblygu'r syniad o Sir Fynwy'n bod yn rhan o'r rhaglen beilot.

5. **Ffioedd Parcio Ceir - Craffu ar gynnydd ar argymhellion y Pwyllgor Dethol - (GWAHODDIR POB AELOD)**

**Cyd-destun:**

Derbyniasom adroddiad gan y Pennaeth Gweithgareddau er mwyn i Aelodau graffu'r adborth sy'n codi o'r ymarfer ymgynghori statudol mewn perthynas â'r gorchymyn parcio ceir arfaethedig newydd ar gyfer meysydd parcio cyhoeddus CSF a gwneud sylwadau fel y gwêl aelodau'n gymwys.

**Materion Allweddol:**

Yn 2014 craffodd Pwyllgor Dethol yr Economi a Datblygiad gynigion i gyflwyno newidiadau niferus i weithdrefn parcio ceir CSF.

Yn dilyn aeth cynigion craffu i'r Cabinet i'w gymeradwyo ym Medi 2014.

Cymeradwywyd amrywiol argymhellion (meysydd parcio ceir newydd, cynnydd mewn taliadau) gan gynnwys drafftio gorchymyn maes parcio ceir newydd.

Cyhoeddwyd y gorchymyn parcio ceir arfaethedig ac mae e ar hyn o bryd mewn cyfnod ymgynghori statudol, y broses ymgynghori ffurfiol yn cau ar 22ain Ebrill 2016. Dangosodd yr adborth o'r ymarfer ymgynghori rai themâu amlwg:

- Codi tâl ar ddeiliaid bathodynnau glas: mae 24 o'r 62 o ddarnau o ohebiaeth wedi'u derbyn. Yr ymateb cyson fu bod codi tâl ar ddeiliaid bathodynnau glas yn annheg. Mewn rhai amgylchiadau awgrymwyd lliniaru ar yr amodau gan ganiatáu'r awr gyntaf o barcio'n rhad ac am ddim.

- Creu meysydd parcio tymor byr (dim dychwelyd o fewn 2 awr) Mae tynnu nôl y cyfle i barcio drwy'r dydd mewn maes parcio arhosiad byr yn golygu bod yn rhaid i'r rheiny sy'n dymuno parcio drwy'r dydd nawr ddefnyddio maes parcio amgen a allai fod yn llai cyfleus.

- Codi tâl (Dydd Llun i ddydd Sadwrn) yn Lôn Byefield, Y Fenni. Pryder bod hyn yn cael gwared â'r unig barcio rhad ac am ddim yn Y Fenni (ar wahân i ddydd Mawrth) yn arwain at y rheiny sy'n defnyddio'r maes parcio'n symud i barcio ar y stryd i osgoi taliadau parcio.

  - Codi tâl am barcio ym maes parcio'r orsaf, Cas-gwent: pryder y gallai hyn atal teithwyr rhag defnyddio'r trên ac ysgogi gyrwyr i barcio ar y stryd i osgoi taliadau parcio.

**Craffu Aelodau:**

Nododd y Cadeirydd y derbynnid adroddiad cynnydd ar ddyddiad yn y dyfodol. Rhoddid i ni nawr gyfle i bori dros yr ymatebion o'r ymgynghori. Ar sail yr ymatebion a dderbyniwyd heddiw, dylai aelodau benderfynu a ydynt am wneud sylwadau pellach cyn i'r gorchymyn drafft gael ei gyflwyno i'r Cabinet.

Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch y mater o godi tâl ar ddeiliaid Bathodynnau glas am barcio ceir, yn enwedig gan mai un o flaenoriaethau'r Cyngor yw amddiffyn pobl fregus. Yn ardal Y Fenni roedd pryderon oddi wrth yr heddlu y gallai hyn arwain at barcio ar linellau melyn, gan wneud sefyllfa sydd eisoes yn rhwystredig yn fwy anodd fyth. Argymhellwyd bod y Cabinet yn ystyried y gwerthoedd a'r cyfraniadau, ac yn ailystyried yn ddwys yr angen i godi tâl  ar ddeiliaid bathodynnau glas.

Eglurodd yr Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cymunedol fod y mater wedi creu penbleth, ac wedi'r cyfarfod blaenorol 2014, roedd y Pwyllgor wedi cytuno i'r argymhelliad ar yr amod bod sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu cynnwys yn adroddiad y Cabinet. Ers y cyfarfod craffu blaenorol roedd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno meini prawf newydd ar gyfer deiliaid bathodynnau glas, gan dynhau'r amodau parthed pwy allai dderbyn bathodyn. Mae ffigurau blwyddyn gyflawn yn dangos bod 20-25% o geisiadau i adnewyddu'n cael eu gwrthod. Clywsom fod gan y Cabinet amheuon difrifol ynghylch cyflwyno'r taliadau a byddent yn edrych ar y mater yn ddifrifol unwaith eto cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol.

Nodwyd , drwy gyfrwng ymatebion i'r ymgynghoriad, fod pryder ynghylch lleoliad peiriannau talu. Cwestiynwyd, os oedd angen i bobl symud i wahanol feysydd parcio, a byddai'n rhaid iddynt dalu bob tro. Mewn ymateb pwysleisiodd y Pennaeth Gweithrediadau'r pwyntiau canlynol:

- Mae'n rhaid i beiriannau fod yn hygyrch ac felly caent eu disodli a'u gwella. Roedd arian i gael ei ail-fuddsoddi mewn peiriannau newydd i ganiatáu talu drwy wahanol ddulliau.
- Yr argymhelliad fyddai y byddai deiliaid bathodynnau glas yn gallu symud o un maes parcio i'r llall ar yr un tocyn.
- Nid yw'r holl ddeiliaid bathodynnau glas yn Sir Fynwy o Sir Fynwy.
- Mae 7 awdurdod yng Nghymru sy'n codi tâl o ryw fath.

Roedd pryderon ynghylch cymwysterau pobl oedd yn asesu a oedd ymgeiswyr yn cwrdd â'r meini prawf am fathodynnau glas.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau 14 Ebrill, 2016 am 10.00 am**

Cododd Aelod bryder ynghylch yr elfen economaidd gan nad yw pob deiliad bathodyn glas yn brin o arian a chwestiynodd sut gallem ddod i'r pwynt lle'r oedd y system yn deg i bawb.

Ceisiodd Aelod eglurhad ar y meini prawf ar gyfer derbyn bathodyn glas. Eglurodd yr Aelod Cabinet fod cael derbyniad yn awtomatig yn ymwneud ag unrhyw berson ar raddfa uwch Lwfans Byw i'r Anabl, cynllun y Lluoedd Arfog neu gynllun Lluoedd Wrth Gefn y Fyddin o ganlyniad i ymddeol ar sail feddygol, diffyg golwg difrifol ac atodiad symudedd pensiynwyr rhyfel. Roedd cymhwyster yn ôl disgresiwn yn ymwneud â phlant dan dair oed, anabledd yn y ddwy fraich, nam gwybyddol difrifol ac anabledd cerdded.

Mynegodd Aelod nad oedd yn cefnogi'r argymhelliad and ei bod yn croesawu craffu manylach ar fater bathodynnau glas.

Roedd Aelodau'n eiddgar i fynegi'u pryder ynghylch pobl fregus yn Sir Fynwy.

Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet fod pryder ynghylch maes parcio'r orsaf yng Nghas-gwent. Gwnaed cynnig gan y swyddfa docynnau yr ymchwilid iddo ymhellach.

**Argymhellion:**

Argymhellodd yr adroddiad fod Aelodau'n nodi cynnwys gorchymyn drafft y maes parcio a'r adborth yn codi o'r broses ymgynghori.

Hefyd, bod Aelodau'n edrych ar gasgliad y pwyllgor craffu blaenorol ac yn cadarnhau a ydynt yn dymuno gwneud sylwadau pellach o ganlyniad i'r broses ymgynghori statudol.

**Casgliad y Pwyllgor:**

Casglodd y Cadeirydd fod Aelodau wedi gwneud digon o sylwadau, ac y bu'r ffocws o gwmpas y bathodynnau glas, gan gynnwys straen y broses ymgeisio, fforddiadwyedd a gorfodaeth.

Yn nhermau'r effaith ehangach byddai'r Pwyllgor yn croesawu adroddiad ar gynnydd i sicrhau bod gan Aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf.

Ymchwilid i ddewisiadau ynghylch Heol yr Orsaf, Cas-gwent i ysgogi defnyddwyr trenau

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau 14 Ebrill, 2016 am 10.00 am**

6. **Blaenraglen Waith Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu**

Nodwyd y byddai'r cyfarfod cyffredin nesaf ar ddydd Iau 9fed Mehefin 2016 am 2.00pm i drafod:

- Diweddariad ar ddigwyddiadau
- Diweddariad ar Fenter a Busnes Sir Fynwy
- Adroddiad Blynyddol Posib y Prif Swyddog

Cadarnhawyd y cynhelid Brecwast Busnes yn Neuadd y Sir, 4ydd Mai 2016.

7. **Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**

Nodwyd dyddiad y cyfarfod nesaf fel dydd Iau 9fed Mehefin 2016, 2.00pm.

**Y cyfarfod i ben am 1.15.**